



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENT**

**2001 Rhif 2788 (Cy.238) (C.94)**

**2001 No. 2788 (W.238) (C.94)**

**TRAFNIDIAETH, CYMRU**

**TRANSPORT, WALES**

**Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth  
2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru)  
2001**

**The Transport Act 2000  
(Commencement No.1) (Wales)  
Order 2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â rhai darpariaethau o Rannau II a III o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i rym yng Nghymru.

This Order brings into force in Wales certain provisions of Parts II and III of the Transport Act 2000.

Mae'r darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Awst 2001 yn cynnwys:

The provisions which come into force on 1 August 2001 include:

Adrannau 108 i 113, sy'n gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau trafniadaeth lleol a strategaethau bysiau;

Sections 108 to 113, which place a duty on local authorities to prepare local transport plans and bus strategies;

Adrannau 114 i 123, sy'n gwneud darpariaeth i'r awdurdodau trafniadaeth lleol wneud cynlluniau partneriaeth ansawdd gwasanaeth bysiau;

Sections 114 to 123, which make provision for local transport authorities to make bus service quality partnership schemes;

Adrannau 124 i 134, sy'n gwneud darpariaeth i'r awdurdodau trafniadaeth lleol wneud cynlluniau contractau ansawdd gwasanaethau bysiau, ond dim ond i'r graddau sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau sy'n perthyn i'r cynlluniau hynny;

Sections 124 to 134, which make provision for local transport authorities to make bus service quality contracts schemes, but only to the extent which enables the National Assembly to make regulations relating to such schemes;

Adrannau 135 i 138, sy'n galluogi'r awdurdodau lleol i wneud cynlluniau ynglyn â thocynnau bysiau ar y cyd a thrwodd;

Sections 135 to 138, which enable local authorities to make schemes for joint and through bus ticketing;

Adrannau 139 i 144, sy'n gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i benderfynu sut i sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau

Sections 139 to 144, which place a duty on local authorities to decide how to ensure that the public receive information about local bus services;

bysiau lleol;

Adrannau 145 i 150 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer consesiynau teithio gorfodol ar fysiau lleol i rai hen neu anabl (ond heb gynnwys yr hawl i'r consesiwn ei hun);

Adrannau 152 i 159 (gyda rhai eithriadau), sy'n ymwneud â grantiau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus leol a phroffion cystadleuaeth ynglyn ag arfer pwerau sy'n perthyn i wasanaethau bysiau;

Adrannau 160, 161 a 162, sy'n ymwneud â'r pwerau i wneud rheoliadau, mân ddiwygiadau i'r gyfraith a dehongli;

Pennod I o Ran III o'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, ond dim ond i'r graddau sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau sy'n perthyn i'r cynlluniau hynny;

Pennod II o Ran III o'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer ardollau parcio manau gwaith, ond dim ond i'r graddau sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau sy'n perthyn i'r cynlluniau hynny;

Pennod III o Ran III o'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol ac atodol yn perthyn i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd ac ardollau parcio manau gwaith ond ac eithrio Atodlen 12 sy'n cynnwys darpariaethau ariannol;

Mae'r darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2002 yn cynnwys:

Y darpariaethau o Adran 145 sy'n rhoi'r hawl i'r consesiynau teithio;

Rhai diwygiadau llai i'r gyfraith o dan Adran 161.

Sections 145 to 150 which make provision for mandatory concessionary travel on local buses for the elderly or disabled (but not including the right to the concession itself);

Sections 152 to 159 (with some exceptions), which relate to grants for local public transport and competition tests relating to the exercise of functions relating to bus services;

Sections 160, 161 and 162, which relate to the powers to make regulations, minor amendments to the law and interpretation;

Chapter I of Part III of the Act which provides for road user charging schemes, but only to the extent which enables the National Assembly and the Lord Chancellor to make regulations relating to such schemes;

Chapter II of Part III of the Act which provides for workplace parking levies, but only to the extent which enables the National Assembly and the Lord Chancellor to make any necessary regulations;

Chapter III of Part III of the Act which makes general and supplementary provisions relating to road user charging and workplace parking levies but with the exception of Schedule 12 which includes financial provisions;

The provisions which come into force on 1 April 2002 include:

The provisions of Section 145 which confer the right to the travel concessions;

Some minor amendments to the law under Section 161.

**2001 Rhif 2788 (Cy.238) (C.94)****2001 No. 2788 (W.238) (C.94)****TRAFNIDIAETH, CYMRU****TRANSPORT, WALES****Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth  
2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru)  
2001****The Transport Act 2000  
(Commencement No.1) (Wales)  
Order 2001***Wedi'i wneud**25 Gorffennaf 2001**Made**25th July 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 275(2) a 276(2) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(a):

The National Assembly for Wales makes the following order in exercise of the powers conferred on it by sections 275(2) and 276(2) of the Transport Act 2000(a):

**Enwi, dehongli a chymhwyso****Citation, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001.

1.-(1) This Order may be cited as the Transport Act 2000 (Commencement No.1) (Wales) Order 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Trafnidiaeth 2000.

(2) In this Order "the Act" means the Transport Act 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

(3) This Order applies to Wales.

**Darpariaethau yn dod i rym****Provisions coming into force**

2. Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn i rym, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir yn yr Atodlen honno, ar 1 Awst 2001.

2. The provisions of the Act specified in Schedule 1 to this Order come into force, subject to the limitations specified in that Schedule, on 1st August 2001.

3. Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2002.

3. The provisions of the Act specified in Schedule 2 to this Order come into force on 1st April 2002.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b).

*Rhodri Morgan*

25 Gorffennaf 2001

25th July 2001

Prif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol

First Secretary of the National Assembly

(a) 2000 p. 38

(a) 2000 c. 38

(b) 1998 p. 38

(b) 1998 c. 38

## ATODLEN 1

Erthygl 2

### DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 1 AWST 2001

1. Adrannau 108 i 123.
2. Adrannau 128(4), 130(8), 131(2), (3) a (4), 132(6), 133 a 134
3. Gweddill darpariaethau adrannau 124 i 132 ond mewn perthynas yn unig â'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen hon.
4. Adrannau 135 i 144.
5. Adran 145 ac eithrio is-adrannau (1), (2) a (3).
6. Adrannau 146 i 150.
7. Adran 152.
8. Adran 153 ac eithrio i'r graddau y mae'n perthyn i baragraff 1(1)(a) a (2)(a) o Atodlen 10 i'r Ddeddf ac i'r geiriau "a quality partnership scheme or" ym mharagraff 12(2) o'r Atodlen honno.
9. Adran 154(1) i (5).
10. Adrannau 155 i 160.
11. Adran 161 ac eithrio i'r graddau y mae'n perthyn i baragraffau 15 i 20 o Atodlen 11 i'r Ddeddf.
12. Adran 162.
13. Adrannau 163(2)(b), 168(3), 172(1), 173(1), (2), (3) a (4), 174(1), (2) a (5), 175(1) ac 176(2).
14. Gweddill Pennod I o Ran III (ac eithrio adran 166) ond mewn perthynas yn unig â'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau a bennir ym mharagraff 13 o'r Atodlen hon.
15. Adrannau 178(2)(b), 182(5), 183(3), 187(1) a 189(1), (2), (3)(b) a (4).
16. Gweddill Pennod II o Ran III (ac eithrio adran 181) ond mewn perthynas yn unig â'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau a bennir ym mharagraff 15 o'r Atodlen hon.
17. Pennod III o Ran III (ac eithrio adrannau 191 ac 199).

## SCHEDULE 1

Article 2

### PROVISIONS WHICH COME INTO FORCE ON 1 AUGUST 2001

1. Sections 108 to 123.
2. Sections 128(4), 130(8), 131(2), (3) and (4), 132(6), 133 and 134.
3. The remaining provisions of Sections 124 to 134 but only in relation to the powers to make regulations under the provisions specified in paragraph 2 of this Schedule.
4. Sections 135 to 144.
5. Section 145 with the exception of sub-sections (1), (2) and (3).
6. Sections 146 to 150.
7. Section 152.
8. Section 153 except to the extent that it relates to paragraph 1(1)(a) and (2)(a) of Schedule 10 to the Act and to the words "a quality partnership scheme or" in paragraph 12(2) of that Schedule.
9. Section 154(1) to (5).
10. Sections 155 to 160.
11. Section 161 except to the extent that it relates to paragraphs 15 to 20 of Schedule 11 to the Act.
12. Section 162.
13. Sections 163(2)(b), 168(3), 172(1), 173(1), (2), (3) and (4), 174(1), (2) and (5), 175(1) and 176(2).
14. The remainder of Chapter I of Part III (except for section 166) but only in relation to the powers to make regulations under the provisions specified in paragraph 13 of this Schedule.
15. Sections 178(2)(b), 182(5), 183(3), 187(1) and 189(1), (2), (3)(b) and (4).
16. The remainder of Chapter II of Part III (except for section 181) but only in relation to the powers to make regulations under the provisions specified in paragraph 15 of this Schedule.
17. Part III Chapter III (except for sections 191 and 199).

**ATODLEN 2**

**SCHEDULE 2**

Erthygl 3

Article 3

**DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 1  
EBRILL 2002**

**PROVISIONS WHICH COME INTO FORCE ON  
1 APRIL 2002**

1. Adran 145(1), (2) a (3).
2. Adran 161 i'r graddau y mae'n perthyn i baragraffau 15 i 20.

1. Section 145(1), (2) and (3).
2. Section 161 to the extent that it relates to paragraphs 15 to 20.





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 2788 (Cy.238) (C.94)**

**TRAFNIDIAETH, CYMRU**

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth  
2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru)  
2001

---

STATUTORY INSTRUMENT

---

**2001 No. 2788 (W.238) (C.94)**

**TRANSPORT, WALES**

The Transport Act 2000  
(Commencement No.1) (Wales)  
Order 2001

©© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.00**


T331/10/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090349-8



9 780110 903491